WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 11 Gorffennaf 2013 |
| Ein cyf: | HVT/1912/fgb |
| Tudalen: | 1 o 11 |

Annwyl Darren

**RHAGLEN O ASTUDIAETHAU GWERTH AM ARIAN A GWAITH ARALL SY'N MYND RHAGDDO**

Ar 12 Mawrth 2013, bu'r Pwyllgor yn trafod fy rhaglen o archwiliadau gwerth am arian a meysydd pwnc posibl ar gyfer astudiaethau'r dyfodol. Rwyf bellach wedi penderfynu pa feysydd gwaith y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn eu datblygu yn ystod 2013-14, gan ystyried sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid eraill ac ar ôl ystyried materion a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor ym mis Mawrth.

Wrth benderfynu ar faint o waith newydd y dylid cychwyn arno yn y flwyddyn ariannol hon, roedd yn rhaid i mi ystyried y ffaith mod i wedi trosglwyddo llawer iawn o waith sy'n mynd rhagddo i gynllun gweithredol eleni ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, ac effaith hynny ar yr adnoddau fydd ar gael. Dylai'r gwaith hwnnw ddarparu ffrwd dda ac amrywiol o bethau i'r Pwyllgor eu hystyried hyd at haf 2014. Mae'n siŵr bod aelodau'n cofio i waith gael ei ohirio yn 2012-13 i wneud lle yn fy rhaglen ar gyfer materion pwysig newydd ac amserol oedd o bwys i'r cyhoedd (er enghraifft, Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio a Fferm Bysgod Penmon). Wrth symud ymlaen, mae'r Pwyllgor wedi darparu arian wrth gefn i'm helpu i ymateb i faterion o'r fath wrth iddynt godi ac i helpu i liniaru'r effaith ar fy rhaglen waith arfaethedig, a mawr yw fy niolch iddynt am hynny. Serch hynny, mae'r blaenoriaethau a fu'n cystadlu yn erbyn ei gilydd yn 2012-13 yn golygu bod rhai o'r astudiaethau arfaethedig yn dal yng nghamau cynnar eu datblygiad.

Rwyf wedi penderfynu y bydd fy astudiaeth ar reoli meddyginiaethau nawr yn cael ei datblygu, yn y lle cyntaf, drwy ein rhaglen o waith archwilio perfformiad y GIG ar lefel leol yn 2014. Bydd hyn yn dilyn ymlaen o'r gwaith ar drefniadau presgripsiynu meddygon teulu yn 2012 sy'n cael ei ddwyn ynghyd ar hyn o bryd i'w gyflwyno mewn adroddiad Cymru gyfan. Bydd gwaith rheoli meddyginiaethau y dyfodol yn canolbwyntio ar bresgripsiynu mewn ysbytai ac rwy'n disgwyl iddo arwain at adroddiad Cymru gyfan cryno i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dylwn fanteisio ar y cyfle hwn i hysbysu'r Pwyllgor fy mod i wedi penderfynu peidio bwrw ymlaen â'r papur briffio arfaethedig ar y rhaglen Hysbysu Gofal Iechyd yn ystod y cam hwn. Ar ôl myfyrio ar ganfyddiadau gwaith archwilio blaenorol yn y maes hwn, rwyf wedi penderfynu cyhoeddi ein canfyddiadau ar ffurf llythyr rheoli i'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gydnabod bod y materion a godwyd gan ein gwaith hyd yn hyn yn perthyn i'r gorffennol yn bennaf a bod datblygiadau gyda rhaglen gwybodeg GIG Cymru wedi goddiweddyd y rhain erbyn hyn. Fodd bynnag, byddaf yn ystyried gwneud gwaith archwilio pellach ar y rhaglen gwybodeg yn 2014-15.

***Cynlluniau ar gyfer astudiaethau gwerth am arian newydd a gwaith archwilio 'adweithiol' arall***

Er bod gennyf raglen benodedig ar gyfer astudiaethau newydd i'w dechrau yn 2013-14, a bod yna arian wrth gefn i'm helpu i ymateb i bryderon o bwysigrwydd cyhoeddus sy'n codi, rwy'n cadw'r hawl i wneud newidiadau i'r rhaglen arfaethedig os ceir unrhyw newidiadau sylweddol mewn polisïau neu yn sgil ffactorau eraill a allai beri i mi ailystyried fy mlaenoriaethau. Mae'r astudiaethau newydd yr wyf yn bwriadu eu cychwyn, a'u cwblhau mewn rhai achosion, yn ystod y flwyddyn ariannol hon yn cynnwys:

- Cyllid iechyd;
- Trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer prynu Maes Awyr Caerdydd;
- Rhestrau aros y GIG;
- Ymyriadau Llywodraeth Cymru mewn llywodraeth leol;
- Gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru;
- Ymyriadau cynnar a newid ymddygiad y cyhoedd;
- Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (gan ehangu o bosibl i ystyried buddsoddiad ehangach gan Lywodraeth Cymru mewn seilwaith TGCh);
- Perfformiad addysgol ac amddifadedd (y grant effeithiolrwydd ysgol a'r grant amddifadedd disgyblion)
- Trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ymateb i argymhellion archwilio.

Yn ogystal â rhaglen gwybodeg y GIG, bydd yn rhoi ystyriaeth bellach i feysydd pwnc posibl eraill a restrais yn fy mhapur ym mis Mawrth 2013 fel rhan o'r cynlluniau ar gyfer 2014-15. Er enghraifft, rwy'n ystyried ei bod hi'n werth archwilio Ardaloedd Menter yn fanylach yn 2014-15. Fel yr archwilydd allanol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, byddaf yn cadw llygad ar ddatblygiad y sefydliad yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol hon gyda golwg ar gynnal gwaith archwilio ychwanegol o bosibl ddechrau 2014-15. Byddaf hefyd yn gofyn i Lywodraeth Cymru nodi amseriad a chwmpas ei 'hadolygiad prawf' ei hun o'r sefydliad newydd. Byddaf yn amlinellu fy nghynlluniau ar gyfer astudiaethau newydd i ddechrau yn 2014-15 erbyn Ionawr 2014 er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn agos ag amseriad penderfyniadau gwaith archwilio perfformiad lleol yn y dyfodol mewn llywodraeth leol a'r GIG.

Yn y cyfamser, byddaf yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw waith archwilio adweithiol a fydd yn defnyddio'r arian wrth gefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ar gyfer 2013-14. Ar hyn o bryd, rwy'n disgwyl i'r gwaith canlynol ddefnyddio'r adnoddau hynny a byddaf yn darparu diweddariad pellach yn yr hydref:

- paratoi papur briffio i'r Pwyllgor ar y Cyswllt Awyr rhwng Ynys Môn a Chaerdydd;
- cyfraniad Swyddfa Archwilio Cymru at lunio adroddiad ar Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a gyhoeddwyd ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;
- cynhyrchu deunydd briffio ychwanegol i gefnogi ymchwiliad gan y Pwyllgor yn y dyfodol i gyflogau uwch reolwyr ar draws y sector cyhoeddus;
- ymchwiliad i'r arian cyhoeddus a roddwyd i Ganolfan Cywain yn y Bala.

Rwyf wedi amgáu manylion cryno am ein cynlluniau ar gyfer yr astudiaethau newydd a'r gwaith adweithiol a restrwyd uchod gyda'r llythyr hwn.

***Gwaith Cymru gyfan ym maes llywodraeth leol a'r GIG***

Rwyf bellach wedi cadarnhau y byddaf yn datblygu astudiaethau Cymru gyfan yn y meysydd canlynol fel rhan o'm rhaglen o waith archwilio perfformiad llywodraeth leol yn 2013-14:

- *Diwygio lles* – ystyried sut mae'r gymuned llywodraeth leol yn ymateb er mwyn lliniaru'r effaith. Yn y cyfamser, ac er mwyn bod yn gyson â chydweithwyr y swyddfeydd archwilio eraill yn y DU, rwy'n cadw golwg am gyfleoedd i gynnal astudiaeth gwerth am arian ehangach yn y maes hwn – astudiaeth drawsffiniol o bosibl.
- *Cyflawni gyda llai: yr effaith ar wasanaethau a dinasyddion* – hon fydd y gyntaf mewn cyfres o astudiaethau yn edrych ar feysydd gwasanaeth penodol. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried pa wasanaethau ddylai gael eu targedu ar gyfer ein gwaith eleni.
- *Diogelu* – edrych ar drefniadau llywodraethu a rheoli ledled awdurdodau.

Fel y nodais yn y papur a gyflwynais i'r Pwyllgor ym mis Mawrth, mae fy rhaglen o waith archwilio perfformiad y GIG ar lefel leol yn 2013 yn cynnwys gwaith Cymru gyfan ar godio clinigol ac ar nyrsio cymunedol. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n archwilio i weld a yw trefniadau codio clinigol cyrff y GIG yn galluogi'r cyrff i gynhyrchu gwybodaeth reoli amserol, cywir a chadarn er mwyn cynllunio a monitro gwasanaethau'r GIG. Bydd y gwaith ar nyrsio cymunedol yn ategu gwaith archwilio blaenorol ar reoli cyflyrau cronig. Byddwn yn edrych i weld a yw byrddau iechyd yn cynllunio a defnyddio eu gwasanaethau nyrsio ardal yn effeithiol fel rhan o'u dull ehangach o ddatblygu gwasanaethau yn y gymuned.

Mae'r astudiaethau Cymru gyfan ym maes llywodraeth leol yn waith ychwanegol i'm gwaith arferol o archwilio sut mae cyrff llywodraeth leol yn cynllunio ar gyfer gwelliannau, eu darparu ac adrodd amdanynt. Yn yr un modd, mae gwaith Cymru gyfan y GIG yn ychwanegol at fy 'asesiad strwythuredig' blynyddol o gyrff unigol y GIG, y bydd eu cynllun eleni wedi'i osod yng nghyd-destun materion a godwyd gan 'Adroddiad Francis' ar ofal a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Canol Swydd Stafford.

***Materion blaenorol a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor***

Ar 12 Mawrth, cododd aelodau'r Pwyllgor nifer o feysydd diddordeb eraill fel pynciau posibl ar gyfer gwaith archwilio yn y dyfodol. Rwyf wedi amlinellu fy ymateb i'r materion hynny isod:

- *Darlledu yng Nghymru*: Nid wyf yn credu y gall Swyddfa Archwilio Cymru ychwanegu fawr at y drafodaeth ar y pwynt hwn. Mae'r drafodaeth wedi'i chynnal ers sawl blwyddyn bellach ac yn debyg o gael sylw pellach fel rhan o waith parhaus y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru. Fodd bynnag, yn sgil pryderon a fynegwyd am ddarlledu yng Nghymru, yn cynnwys y pryderon diweddar am ariannu S4C yn y dyfodol, rwyf wedi ysgrifennu at y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i ddechrau trafodaeth am ei waith ar faterion darlledu, yn benodol mewn perthynas â'r BBC, ac a yw unrhyw waith a gynlluniwyd yn rhoi cyfle i ystyried materion sy'n ymwneud â'r gwledydd datganoledig.
- *Gwasanaethau bysiau, tocynnau teithio rhatach a thrafnidiaeth integredig*: Bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal ymchwil pellach i gefndir y meysydd hyn i lywio ein barn ar gynlluniau ar gyfer astudiaethau newydd i ddechrau yn 2014-15 ond, fel y nodwyd uchod, rwyf wedi penderfynu cynnal astudiaeth ar wasanaethau rheilffyrdd yn awr. Ym mhob achos, byddwn yn ystyried materion a godwyd yn adroddiad diweddar y Pwyllgor Busnes a Menter ar drafnidiaeth integredig. Byddai gwaith ar wasanaethau bws yn 2014-15 yn rhoi cyfle i ystyried effaith newidiadau mewn ariannu gwasanaethau bysiau a gyflwynwyd o ddechrau 2013-14. Roedd y newidiadau'n cynnwys cyfuno Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau, Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol a Menter Tocynnau Teithio Rhatach ar Drafnidiaeth Gymunedol yn un Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol gwerth £25 miliwn y flwyddyn.
- *Dull (newidiol) Llywodraeth Cymru o fuddsoddi mewn adfywio*: Ar 11 Mawrth 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau ar gyfer fframwaith adfywio newydd i Gymru gyda'r nod o dargedu cyllid yn well i brosiectau yn rhai o ardaloedd tlotaf Cymru. Fel rhan o'r fframwaith newydd hwn, *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid*, mae Llywodraeth Cymru yn ehangu'r cyfle i gael cyllid adfywio i bob rhan o Gymru, sy'n newid o'r ffocws blaenorol ar saith ardal adfywio strategol. Byddaf yn ystyried y pwnc hwn ymhellach fel rhan o'r cynlluniau ar gyfer 2014-15.
- *Meddygon Ymgynghorol y GIG a'u gwaith practis preifat*: Mae'r Pwyllgor wedi cael y cyfle i fynd ar drywydd rhai materion fel rhan o'r ymchwiliad diweddar i Gontract Meddygon Ymgynghorol y GIG. Byddwn yn hapus i roi ystyriaeth bellach i waith wedi'i dargedu ar y materion hyn, os oes yna faterion sy'n parhau i fod yn destun

pryder, a gan gymryd i ystyriaeth unrhyw argymhellion y gallai'r Pwyllgor eu gwneud yn ei adroddiad ei hun ar Gontract Meddygon Ymgynghorol y GIG.

- *Rheoli'r ystâd gofal sylfaenol*: Fel rhan o'r cynlluniau ar gyfer ein gwaith o archwilio perfformiad y GIG yn 2014 byddwn yn ystyried ymhellach y posibilrwydd o gynnal gwaith Cymru gyfan ar y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a allai, o bosibl, gynnwys materion sy'n ymwneud â rheoli'r ystâd gofal sylfaenol. Fel arall, gallem ystyried cynnwys ymchwiliad i'r mater hwn yn ein gwaith asesu strwythuredig ar gyfer 2014. Fodd bynnag, byddwn yn hapus i glustnodi rhai adnoddau ar gyfer paratoi papur briffio ar reoli'r ystâd gofal sylfaenol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei wybod eisoes o'n gwybodaeth archwilio gyfredol pe bai'r Pwyllgor yn dymuno ystyried bwrw ymlaen â gwaith ei hun yn y tymor byr.
- *Y Rhaglen Cefnogi Pobl, a chael gafael ar wasanaethau cyngor cyfreithiol a chyngor arall i ddinasyddion:* byddwn yn disgwyl cael cyfleoedd i archwilio rhai o'r materion hyn fel rhan o astudiaeth arfaethedig llywodraeth leol ar ddiwygio lles, yng nghyd-destun y galw cynyddol tebygol am wasanaethau cysylltiedig neu, mewn amser, fel rhan o unrhyw astudiaeth gwerth am arian ehangach. Rwy'n ymwybodol bod y rhaglen *Cefnogi Pobl* yn dal i fod mewn cyfnod pontio yn dilyn newidiadau i drefniadau ariannu a llywodraethu a gyflwynwyd yn sgil adolygiad dan arweiniad Syr Mansel Aylward yn 2010. Rwy'n deall bod yna amrywiaeth o waith adolygu a gwerthuso allanol arall yn digwydd yn barhaus fel rhan o'r broses bontio honno.

Byddwn yn hapus i drafod cynnwys y llythyr hwn ymhellach gyda'r Pwyllgor.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

*Amg Atodiad*

**ATODIAD**

**Mae ein themâu strategol yn cynnwys:**

A – Ymgymryd â'n gwaith archwilio â phwyslais ar galedi.

B – Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da.

C – Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd.

D – Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

| | A | B | C | D |
|---|---|---|---|---|
| **Astudiaethau newydd i ddechrau yn 2013-14** | | | | |
| **Cyllid iechyd**<br><br>Fel y nodais ym mis Mawrth 2013, roeddwn eisoes wedi penderfynu cynnal gwaith pellach ar gyllid iechyd, yn dilyn fy adroddiad ar y pwnc hwn ym mis Gorffennaf 2012 a fy mhapur diweddaraf i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2012. Mae'r gwaith hwn wedi cael blaenoriaeth dros y pedwar mis diwethaf a bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n fuan.<br><br>Mae ein gwaith maes wedi cynnwys ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'm hargymhellion blaenorol yn y maes hwn, a'i hymateb i argymhellion y Pwyllgor. Bydd fy adroddiad yn edrych ar y sefyllfa ariannol ledled GIG Cymru, gan ystyried y sefyllfa ar gyfer 2012-13 a heriau'r dyfodol. Bydd yr adroddiad hefyd yn darparu trosolwg bras o berfformiad Llywodraeth Cymru yn erbyn ei thargedau blaenoriaeth ar gyfer darparu a gwella gwasanaethau. | • | • | | |
| **Trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer prynu Maes Awyr Caerdydd**<br><br>Rwy'n bwriadu cynnal astudiaeth eang, yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru i lywio ei phenderfyniad i brynu'r maes awyr a gosod yr astudiaeth o fewn cyd-destun datblygu cynaliadwy cyffredinol yn hytrach na chanolbwyntio'n gul ar feysydd fel y dulliau trafod a ddefnyddiwyd yn ystod y broses brynu. Bydd ystyried sut y gweithredodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol yn yr achos hwn yn gyfle i ailystyried materion a gododd yn sgil adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ym mis | | | • | • |

| | A | B | C | D |
|---|---|---|---|---|
| Ionawr 2010 - *Datblygu cynaliadwy a gwneud penderfyniadau busnes yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.* Bydd hefyd yn rhoi cyfle i ystyried sut i gynnwys ystyriaethau datblygu cynaliadwy yn well yn fy astudiaethau, cyn i gyfrifoldebau statudol gael eu cyflwyno o bosibl yn sgil y Bil Datblygu Cynaliadwy.<br><br>Rwy'n rhagweld, felly, y byddaf yn cadw golwg agos ar ddatblygiadau ym Maes Awyr Caerdydd gyda'r bwriad o gynnal gwaith archwilio pellach pan fydd gan y maes awyr gofnod sefydlog o'i weithrediadau o dan berchnogaeth y sector cyhoeddus, er mwyn cymharu perfformiad gwirioneddol yn erbyn rhagolygon a nodwyd yn yr achos busnes dros brynu. | | | | |
| **Rhestrau aros y GIG**<br><br>Mae perfformiad y GIG mewn perthynas â thargedau rhestrau aros wedi bod yn dirywio dros y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer y bobl sy'n aros dros 26 wythnos a 36 wythnos am driniaeth wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf. Gan gadw'r cyfyngiadau ariannol cyfredol mewn cof, byddai'r gwaith hwn yn edrych ar berfformiad amseroedd aros, gan ymestyn i gynnwys mesurau eraill o berfformiad gwasanaethau o bosibl ac adeiladu ar ein gwaith ar gyllid iechyd. Byddai unrhyw waith yn y maes hwn yn ystyried y perfformiad a adroddwyd, rhesymau sylfaenol a materion ansawdd data.<br><br>Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru adroddiad ar amseroedd aros y GIG ym mis Ionawr 2005 a chyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad dilynol yn 2006. Byddai'r gwaith hwn yn defnyddio'r wybodaeth archwilio flaenorol honno gyda gwaith archwilio perfformiad lleol a wnaed gan gyrff y GIG ers y cyfnod hwnnw sydd wedi ystyried cywirdeb y data ar restrau aros. Ym mis Chwefror 2013, cyhoeddodd Audit Scotland adroddiad a nododd nad oedd gan systemau a ddefnyddir gan gyrff y GIG yn yr Alban i reoli rhestrau aros, fesurau a llwybrau archwilio digonol, a bod y wybodaeth a gofnodwyd yng nghofnodion cleifion yn gyfyngedig. Mae Audit Scotland yn bwriadu cynnal rhagor o waith yn y maes hwn yn ddiweddarach yn 2013. | • | • | • | |
| **Ymyriadau llwyddiannus mewn llywodraeth leol**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud defnydd cynyddol o'r dechneg hon i godi safonau ymysg cyrff cyhoeddus sy'n cyflawni'n wael. Defnyddiwyd amrywiaeth o fodelau ymyrryd mewn ymateb i bryderon ynghylch llywodraethu corfforaethol a pherfformiad gwasanaethau addysg a chymdeithasol. Mae cynghorau sydd wedi | | • | • | |

| | A | B | C | D |
|---|---|---|---|---|
| bod yn destun ymyriadau neu sy'n destun ymyriadau ar hyn o bryd yn cynnwys Ynys Môn, Sir Benfro, Blaenau Gwent a Sir Fynwy. Mae nifer o gynghorau yn destun ymyriadau ar hyn o bryd o ganlyniad i wendidau mewn gwasanaethau addysg a nodwyd gan arolygiadau Estyn.<br><br>Byddai'n fuddiol iawn cynnal astudiaeth gwerth am arian sy'n nodi nodweddion ymyriadau llwyddiannus ac yn llunio argymhellion a fydd yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu ymyriadau o'r fath. Byddai'r astudiaeth hon yn defnyddio gwybodaeth benodol am y sector gan Estyn ac AGGCC ac yn edrych ar arferion cymharol y tu hwnt i Gymru. | | | | |
| **Gwasanaethau rheilffordd yng Nghymru**<br><br>Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio rôl Llywodraeth Cymru yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau rheilffordd yng Nghymru fel cyd-lofnodwr gydag Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU ar gyfer y Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau presennol a'r cyllid a ddarperir ar gyfer gwasanaethau a gwelliannau ychwanegol i seilwaith y rheilffyrdd (gyda chymorth cyllid cyfalaf o tua £76 miliwn dros y tair blwyddyn ariannol diwethaf). Byddai'r gwaith yn cynnwys ystyried y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill, yr Adran Drafnidiaeth a Network Rail yn arbennig.<br><br>Yn ôl termau Cytundeb Partïon ar y Cyd gyda'r Adran Drafnidiaeth, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am weinyddu a rheoli perfformiad y masnachfraint a'r berthynas o ddydd i ddydd gyda deiliad y fasnachfraint, Trenau Arriva Cymru. Bydd y cytundeb masnachfraint cyfredol yn dod i ben yn 2018. Mae Trysorlys EM yn darparu arian ar gyfer y masnachfraint sylfaenol, sydd nawr wedi ei normaleiddio i'r trosglwyddiad bloc. Cost gwasanaethau yng Nghymru ar gyfer y masnachfraint sylfaenol oedd £153.8 miliwn yn 2012-13. Mae Llywodraeth Cymru yn talu costau unrhyw daliadau bonws sy'n ddyledus i Drenau Arriva Cymru (£26.6 miliwn rhwng 2007-08 a 2011-12). Masnachfraint Trenau Arriva Cymru sy'n derbyn y cymhorthdal uchaf gan y llywodraeth fesul milltir teithwyr yn y DU, er ein bod wedi cael arddeall ei fod wedi lleihau ers dechrau'n masnachfraint.<br><br>Yn ei adroddiad diweddar, *Trafnidiaeth Integredig*, cyflwynodd y Pwyllgor Menter a Busnes nifer o argymhellion ynghylch masnachfraint rheilffyrdd, yn cynnwys y dylai Llywodraeth Cymru barhau i lobïo Llywodraeth y DU am rôl uwch ym mhrosesau masnachfraint y rheilffyrdd gan ei bod yn effeithio ar Gymru, yn enwedig pwerau i nodi trefniadau masnachfraint sy'n cynnwys | | • | • | • |

| | A | B | C | D |
|---|---|---|---|---|
| gwasanaethau Cymru yn unig yn bennaf, fel Masnachfraint Cymru a'r Gororau. | | | | |
| **Ymyriadau cynnar a newid ymddygiad y cyhoedd**<br><br>Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gweithio i newid ymddygiad y cyhoedd ar sawl haen mewn meysydd fel ailgylchu, defnydd o ynni, rhianta, mynediad i wasanaethau'r GIG a ffordd iach o fyw. Fodd bynnag, mae newid ymddygiad y cyhoedd yn dasg sy'n ddiarhebol o anodd.<br><br>Mae Llywodraethau wedi ceisio sicrhau'r newidiadau hyn drwy gymysgedd o ymyriadau, cymhelliannau ac ysgogiadau, yn cynnwys ymgyrchoedd gwybodaeth i'r cyhoedd, trethi a rheoleiddio. Yn gynyddol, credir bod llwyddiant i newid ymddygiad y cyhoedd yn llawer mwy tebygol os yw'r ymyriadau gan lywodraethau yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'r ffactorau sy'n sail i ymddygiad y cyhoedd.<br><br>Gan ddefnyddio cyhoeddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, *Auditing Behaviour Change,* ac ystyried canllawiau eraill a gyhoeddwyd, fel canllawiau'r Ganolfan Farchnata Gymdeithasol Genedlaethol, byddai'r astudiaeth hon yn ystyried a yw gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn cael gwerth am arian yn sgil eu hymdrechion i newid ymddygiad y cyhoedd. Byddai hon yn astudiaeth drawsbynciol yn edrych ar amrywiaeth o amcanion polisi ac yn ystyried gwaith blaenorol gan Swyddfa Archwilio Cymru lle bo'n berthnasol. Byddai'r astudiaeth hon yn canolbwyntio'n benodol ar ledaenu arferion da a rhannu gwersi a ddysgwyd. | • | • | | • |
| **Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (gan ehangu o bosibl i ystyried buddsoddiad ehangach gan Lywodraeth Cymru mewn seilwaith TGCh)**<br><br>Yn y lle cyntaf, rwy'n rhagweld y bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar gontract y prosiect cydgasglu, yng nghyd-destun cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ail-dendro'r contract hwnnw yn 2014. Gwerth y contract saith mlynedd cyfredol yw tua £20 miliwn y flwyddyn. Sefydlwyd Rhwydwaith Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus i ddarparu llwyfan cyfathrebu a gwybodaeth cenedlaethol gyda'r nod o sicrhau mwy o effeithlonrwydd a chydweithredu ar draws gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gwell i bobl Cymru. | • | | • | |

| | A | B | C | D |
|---|---|---|---|---|
| Fodd bynnag, mae cwmpas fy ngwaith yn debygol o ymestyn i ystyried cwestiynau ehangach yn ymwneud â sut mae'r contract uchod yn cyd-fynd â strategaeth ehangach a buddsoddiad Llywodraeth Cymru ar gyfer seilwaith TGCh trwy raglenni gwaith yn cynnwys Prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf a pherfformiad cyffredinol Llywodraeth Cymru o ran cyflawni ei chynlluniau seilwaith TGCh. Lle bo'n berthnasol, byddai'r gwaith hwn yn rhoi sylw i faterion a godwyd yn fy adroddiad ym mis Rhagfyr 2012, *Defnyddio technoleg i gyflawni gwelliannau ac effeithiolrwydd mewn llywodraeth leol.* | | | | |
| **Perfformiad addysgol ac amddifadedd (y grant effeithiolrwydd ysgol a'r grant amddifadedd disgyblion)**<br><br>Mae *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016* Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod tlodi yn arwain at ganlyniadau addysgol, iechyd ac ymddygiad gwaeth i unigolion. Bydd yr astudiaeth hon yn archwilio sut mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn gwaith i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar berfformiad addysgol, gan gyfeirio'n arbennig at weinyddu'r Grant Effeithiolrwydd Ysgol a'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Gyda'i gilydd, mae'r arian grant hwn yn cyfateb i £68 miliwn yn 2013-14, er ei fod yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â ffrydiau ariannu eraill gydag amcanion tebyg, fel y pecyn £1.2 miliwn o gymorth Cymunedau yn Gyntaf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru'n ddiweddar. Rwy'n rhagweld y byddaf yn gweithio gydag Estyn i ddatblygu'r astudiaeth hon, a fydd hefyd yn rhoi cyfle i ystyried sut mae camau gweithredu ehangach Llywodraeth Cymru i wella trefniadau rheoli grantiau wedi'u rhoi ar waith yn yr achosion hyn. | • | • | | • |
| **Trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ymateb i argymhellion archwilio**<br><br>Fel y nodwyd yn y papur a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 12 Mawrth 2013, bydd y gwaith hwn yn profi agweddau ar lywodraethu corfforaethol Llywodraeth Cymru ond bydd hefyd yn rhoi cyfleoedd i:<br><br>• nodi unrhyw angen am waith dilynol manylach mewn meysydd penodol;<br>• asesu effaith ein gwaith blaenorol, fel rhan sylfaenol o ddull mwy systematig o fesur effaith ein gwaith.<br><br>Wrth gynnal y gwaith hwn, byddwn yn ystyried tystiolaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r Pwyllgor fel rhan o'i waith dilynol ei hun ar amryw o bynciau. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ymateb | | | • | |

| | A | B | C | D |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru i argymhellion sy'n codi o f'adroddiadau fy hun ac adroddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. | | | | |
| **Gwaith adweithiol arall a gyflawnwyd hyd yn hyn yn 2013-14** | | | | |
| **Cysylltiad Awyr Ynys Môn a Chaerdydd**<br><br>Fel y trafodwyd gyda'r Pwyllgor ar 7 Mai 2013, rwyf wedi derbyn gohebiaeth yn mynegi pryder ynghylch y gwerth am arian a ddarperir gan y Cysylltiad Awyr rhwng Ynys Môn a Chaerdydd. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu dwy daith hedfan rhwng RAF y Fali ar Ynys Môn a Maes Awyr Caerdydd ar gost flynyddol gyfredol o hyd at £1.2 miliwn.<br><br>Bydd y papur briffio hwn yn amlinellu trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli ei gymhorthdal ar gyfer y cysylltiad awyr, yn cynnwys trefniadau caffael a rheoli contract a thystiolaeth ynglŷn â gwerth am arian. | | | • | • |
| **Cyflogau uwch reolwyr y sector cyhoeddus**<br><br>Yn dilyn trafodaethau gan y Pwyllgor ar 16 Gorffennaf, rwy'n disgwyl darparu papur briffio i'r Pwyllgor i gefnogi ei gynlluniau ar gyfer ymchwiliad byr i gyflogau uwch reolwyr. Byddai'r papur yn nodi'r fframweithiau sy'n rheoli cyflogau a buddion uwch reolwyr ar hyn o bryd ledled gwasanaethau cyhoeddus Cymru ac yn defnyddio ein gwaith archwilio ariannol ni i lunio dadansoddiad o gyfraddau cyflog uwch reolwyr. | • | • | • | |
| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**<br><br>Fel y gŵyr y Pwyllgor, rwyf newydd gyhoeddi adroddiad ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar drefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd yr adroddiad yn nodi amryw o heriau mewn perthynas â threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg eglurder ynghylch trefniadau atebolrwydd a phryderon cynyddol nad oes gan y Bwrdd y gallu a'r capasiti i ddarparu'r lefelau craffu priodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau. | | | • | |
| **Arian cyhoeddus ar gyfer Canolfan Cywain yn y Bala**<br><br>Yn gynharach eleni, daeth pryderon i'r fei am fethiant Canolfan Cywain yn y Bala a oedd wedi derbyn tua £2 filiwn o arian cyhoeddus. Mae fy staff wedi cwblhau rhai ymholiadau cychwynnol i'r arian cyhoeddus hwnnw a'r ffaith fod y ganolfan wedi cau. | | | • | |

| | A | B | C | D |
|---|---|---|---|---|
| Yn seiliedig ar y gwaith cychwynnol hwn a diddordeb y cyhoedd yn y mater, rwyf wedi dod i’r casgliad y dylai Swyddfa Archwilio Cymru gynnal ymchwiliad manwl i’r penderfyniad i ddarparu arian cyhoeddus i’r fenter, yn cynnwys y camau a gymerwyd i liniaru yn erbyn y risgiau (a’r colledion) a’r gwersi i’w dysgu o’r achos hwn. | | | | |